

Gwybodaeth Ymgeisydd ar gyfer Swydd Cyfarwyddwr  
Gwirfoddol



## Yr Ŵyl Serameg Ryngwladol

[www.internationalceramicsfestival.org](http://www.internationalceramicsfestival.org)

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DE

### Gwybodaeth ynglyn â'r Ŵyl

Yr Ŵyl Serameg Ryngwladol (ICF) yw Gŵyl Serameg Ryngwladol flaenaf Ewrop ac fe'i cynhelir bob yn ail flwyddyn yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar gampws Prifysgol Aberystwyth ar arfordir canolbarth Cymru. Ers iddi gael ei sefydlu ym 1987, mae'r ŵyl dridiau hon wedi tyfu i fod yn un o brif ddigwyddiadau serameg y DU. Mae'n cynnig cyfle i athrawon, myfyrwyr, artistiaid serameg, casglwyr a hobiwyr i gyfarfod ac astudio gwaith crochenwyr a seramegyddion rhyngwladol uchel eu parch o'r DU a ledled y byd.

Mae'r Ŵyl yn denu dros 1000 o bobl sy'n mynychu darlithoedd, yn gwyllo arddangosiadau ymarferol ac yn ymweld â'n harddangosfeydd arbennig dros benwythnos hir ar ddiwedd mis Mehefin neu ddechrau mis Gorffennaf. Mae ein harddangoswyr rhyngwladol yn rhannu amrywiaeth o sgiliau a thechnegau yn cynnwys taflu, printio 3D, adeiladu odynau a pherfformio taniadau. Cynhelir yr ŵyl nesaf dros benwythnos Dydd Gwener Mehefin 30ain tan Dydd Sul Gorffennaf 2il 2023.

Mae cwmni'r Ŵyl Serameg Ryngwladol (ICF Ltd) yn Gwmni Cyfyngedig trwy Warant sy'n cael ei redeg ar y cyd gan ddau grŵp crochenwyr Cymru, Crochenwyr Gogledd Cymru a Crochenwyr De Cymru, ynghyd â Phrifysgol Aberystwyth a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Mae'r ŵyl yn y gorffennol wedi derbyn nawdd gan Potclays, un o brif gyflenwyr serameg y DU a chwmnïau cyflenwi serameg eraill. Fe'i cefnogir yn ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

### Y Swydd

Rheolir yr Ŵyl ar hyn o bryd gan fwrdd o pum Chyfarwyddwr ar sail wirfoddol. Mae aelodau'r Bwrdd yn gweithio'n agos gyda'i gilydd a thîm o gontractwyr hunan-gyflogedig i drefnu a gwireddu'r ŵyl. Yn draddodiadol mae'r Cyfarwyddwyr wedi bod yn aelodau'r grwpiau crochenwyr cysylltiedig ond gan ein bod bellach yn cynnal y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Bwrdd ar Zoom 'rydym yn gwahodd diddordeb gan unigolion ychwanegol gan gynnwys rhai nad ydynt o angenrheidrwydd wedi eu lleoli yng Nghymru.

Disgwylir i aelodau fynychu cyfarfodydd o'r bwrdd unwaith y mis ar Zoom gyda rhagor o ymrwymiad o gwmpas adeg yr ŵyl.

Dyma gyfle cyffrous i fod yn rhan o ŵyl hanesyddol ar amser arwyddocaol pan 'rydym yn gobeithio datblygu'r rhaglen mewn cyfeiriadau newydd. Yn ystod yr haf 2021 cynhaliwyd ein digwyddiad ar-lein cyntaf sef *'Ailddirwyn - Dros 30 mlynedd o'r Ŵyl Serameg Ryngwladol yn Aberystwyth'* a dymunwn barhau i ystyried cyfleoedd i gyflwyno'r ŵyl mewn ffyrdd hybrid yn y dyfodol.

### Yr Ymgeisydd

Gofynion	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diddordeb brwd mewn serameg</li> <li>• Parodrwydd i fynychu cyfarfodydd Zoom misol gyda'r posibilrwydd o ragor o ymrwymiad yn y dyfodol</li> <li>• Meddu ar agwedd ryngwladol</li> <li>• Medru gweithio fel rhan o dîm</li> </ul>
Dymunol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Profiad o redeg busnes ar raddfa fwy nag unig fasnachwr</li> <li>• Profiad o godi arian</li> <li>• Gwybodaeth ddigidol e.e. o drefnu digwyddiadau ar-lein</li> <li>• Y gallu i siarad Cymraeg</li> </ul>

Ymrwymiad amser: 1 flwyddyn (gyda chyfle posibl i barhau y tu hwnt i hyn) Gorffennaf 2022-Gorffennaf 2023

### I geisio am y swydd

Anfonwch e-bost at [administrator@icfwales.co.uk](mailto:administrator@icfwales.co.uk) gyda'r wybodaeth ganlynol ac e-bostiwch hefo'r pwnc '**Cyfarwyddwr Gwirfoddol**':

- Eich enw a'ch manylion cyswllt
- Y rheswm pam fod gennych ddiddordeb yn y rôl hon
- Gwybodaeth, sgiliau neu brofiad arbennig y gallech ddod â nhw i'r rôl
- Beth rydych chi'n gobeithio ei gael o'r rôl

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i alwad ffôn anffurfiol gydag un o'n cyfarwyddwyr.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Gwener 22 Gorffennaf 2022**